

**Data Cyfrifiad 2011 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Gweithgarwch Economaidd (Pob person)**

<b>Pob person</b>	<b>Sir Gaerfyrddin</b>		<b>Cymru</b>		<b>Cymru a Lloegr</b>	
<b>Pob person oed 16-74</b>	<b>132,930</b>		<b>2,245,166</b>		<b>41,126,540</b>	
<b>Yn weithgar yn economaidd</b>						
Gweithiwr cyflogedig: Rhan amser	18,475	13.9%	313,022	13.9%	5,646,290	13.7%
Gweithiwr cyflogedig: Llawn amser	44,839	33.7%	799,348	35.6%	15,815,912	38.5%
Hunangyflogedig	14,642	11.0%	194,029	8.6%	3,987,661	9.7%
Di-waith	4,962	3.7%	96,689	4.3%	1,799,536	4.4%
Myfyriwr mewn addysg amser llawn	3,299	2.5%	73,647	3.3%	1,410,470	3.4%
<b>Yn anweithgar yn economaidd</b>						
Wedi ymddeol	24,097	18.1%	361,501	16.1%	5,682,192	13.8%
Myfyriwr (yn cynnwys myfyrwyr mewn addysg amser llawn)	5,992	4.5%	133,880	6.0%	2,389,711	5.8%
Gofalu am y cartref neu deulu	5,007	3.8%	86,396	3.8%	1,781,530	4.3%
Yn sâl neu'n anabl am gyfnod hir	9,055	6.8%	140,760	6.3%	1,714,894	4.2%
Arall	2,562	1.9%	45,894	2.0%	898,344	2.2%
<b>Di-waith</b>						
16-24 oed	1,612	1.2%	30,772	1.4%	502,438	1.2%
50-74 oed	920	0.7%	16,820	0.7%	332,683	0.8%
Erioed wedi gweithio	726	0.6%	14,951	0.7%	291,072	0.7%
Di-waith am gyfnod hir	2,018	1.5%	38,428	1.7%	706,924	1.7%

**Diffiniadau**

**Myfyriwr amser llawn:**

Unigolyn o unrhyw oed sydd wedi nodi ei fod yn blentyn ysgol neu'n fyfyrwr mewn addysg amser llawn yw myfyriwr amser llawn. Caiff plant ysgol a myfyrwyr mewn addysg llawn amser sy'n astudio oddi cartref eu trin fel petaent yn preswyllo yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor fel arfer.

**Gwaith llawn amser:**

Diffinnir gwaith llawn amser fel gweithio 31 awr neu fwy'r wythnos. Mae hyn yn gymwys i nifer yr oriau y gwnaeth unigolyn rhwng 16 a 74 oed a oedd mewn cyflogaeth yn yr wythnos cyn y cyfrifiad weithio yn ei brif swydd, ac mae'n cynnwys goramser â thâl a goramser di-dâl.

**Y di-waith hir dymor.**

Caiff unigolyn ei ddiffinio fel rhywun sydd wedi bod yn ddi-waith yn yr hir dymor ar adeg Cyfrifiad 2011 os oedd yn ddi-waith ac mai yn 2009 neu'n gynharach y gweithiodd ddiwethaf.

**Dosbarthiad Economaidd-cymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC)**

Mae Dosbarthiad Economaidd-cymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC) yn dynodi sefyllfa economaidd-cymdeithasol ar sail galwedigaeth. Mae'n un o ddosbarthiadau safonol y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Er mwyn pennu categori NS-SEC i unigolyn, caiff teitl ei alwedigaeth ei gyfuno â gwybodaeth am ei statws cyflogaeth, p'un a yw'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig a ph'un a yw'n goruchwyllo cyflogeion eraill. Caiff myfyrwyr sydd mewn addysg amser llawn eu cofnodi yn y categori 'myfyriwr mewn addysg amser llawn' p'un a ydynt yn gweithio ai peidio.

Mae'r fersiwn o NS-SEC yr aillbennwyd ei sail a ddefnyddir yng nghanlyniadau'r cyfrifiad yn defnyddio galwedigaeth wedi'i chodio i SOC2010. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y dosbarthiad yn: <http://ons.gov.uk/ons/guide-method/classifications/current-standard-classifications/soc2010/soc2010-volume-3-ns-sec-rebased-on-soc2010-user-manual/index.html>.

Yng nghanlyniadau Cyfrifiad 2011, am nad oedd y cyfrifiad yn cynnwys cwestiwn am nifer y cyflogeion yng ngweithle unigolyn, defnyddir y dull gostyngol o ddeillio NS-SEC (nad yw'n gofyn am y wybodaeth hon).

**NS-SEC, Heb ei ddosbarthu**

Nid yw'r is-gategori NS-SEC 'Galwedigaeth heb ei nodi neu heb ei ddisgrifio'n ddigonol' sydd fel arfer yn rhan o'r categori 'Heb ei ddosbarthu' yn gymwys i ganlyniadau'r cyfrifiad am fod atebion ar goll yn cael eu cyfrif.